



## Pen-blwydd hapus i'r ysgol!




Mae'r ysgol yn dathlu ei phen-blwydd yn 87 mlwydd oed **heddiw**!

Agorodd yr ysgol ei drysau yn gyntaf nôl ar Fedi'r $25^{ain}$ 1939 yn adeilad yr Urdd ar Heol Llanbadarn. Syr Ifan ab Owen Edwards sefydlodd yr ysgol, gydag ond 7 disgybl ar y gofrestr ar y cychwyn. Enw'r Pennaeth cyntaf oedd Miss Norah Isaac.

Os hoffech ddysgu mwy am hanes yr ysgol cysylltwch â'r Swyddfa er mwyn benthyg/prynu copi o 'Goleudy dysg a dawn' sef llyfr dathlu 75 mlynedd yr ysgol.

## *Happy Birthday to the school!*

*The school is celebrating its $87^{th}$ birthday **today**!*

*The school first opened its doors on $25^{th}$ September 1939 in the Urdd building on Llanbadarn Road. The school was founded by Sir Ifan ab Owen Edwards, with just 7 pupils on the register at the very beginning. The school's first Headteacher was Miss Norah Isaac.*

*If you would like to learn more about the history of the school, please contact the School Office to borrow/purchase a copy of 'Goleudy Dysg a Dawn', the book published to celebrate the school's 75th anniversary.*

---

## Cwmni adeiladu WYNNE

Rydyn ni'n gyfarwydd iawn erbyn hyn gyda chwmni WYNNE yn adeiladu y tu allan i'r ysgol, ond ddydd Llun yr $28^{ain}$ o Fedi bydd cynrychiolydd o'r cwmni yn dod i mewn i neuadd yr ysgol i drafod mwy gyda disgyblion blynyddoedd 1-6.

Pwrpas yr ymweliad yw trafod y camau nesaf wrth adeiladu, beth i ddisgwyl ar y diwedd, a'r ffyrdd i gadw ein hunain a'n gilydd yn ddiogel yn ystod yr adeiladu.
Edrychwn ymlaen at groesawu Sara i'r ysgol.

## *WYNNE Construction*

*We are very familiar by now with WYNNE Construction working on the building project outside the school, but on Monday, $28^{th}$ September, a representative from the company will be coming into the school hall to speak to pupils in Years 1–6.*

*The purpose of the visit is to discuss the next stages of the building work, what we can expect when the project is completed, and the ways in which we can keep ourselves and each other safe while the building work is taking place.*
*We look forward to welcoming Sara to the school.*

---

## Dr Beic



Yn dilyn sesiynau sgwtera llwyddiannus iawn yr wythnos hon, mae Alice o 'Walk, Wheel, Cycle Trust Cymru' wedi trefnu sesiynau gyda Dr Beic wythnos nesa! Pwrpas Dr.Beic yw i gynnig gwiriad cyflym i feiciau plant, gan wirio pethau fel y breciau, y teiars, y gerau a'r gadwyn. Byddant yn gwneud mân addasiadau ac atgyweiriadau lle bo modd, gan helpu i sicrhau bod y beiciau'n ddiogel ac yn barod i'w defnyddio.

Bydd Dr.Beic yn yr ysgol ddydd Mercher nesaf 30/09 (ac yn parhau ar ddydd Iau 01/10 os oes llawer o feics)

## *Dr Bike*

*Following this week's very successful scooter sessions, Alice from 'Walk, Wheel, Cycle Trust Cymru' has arranged for Dr Bike to visit us next week! The purpose of Dr Bike is to offer children's bikes a quick safety check, looking at things such as the brakes, tyres, gears and chain. They will also carry out minor adjustments and repairs where possible, helping to make sure that bikes are safe and ready to ride.*

*Dr Bike will be at the school next Wednesday 30/09 (and will continue Thursday if there are many bikes)*



### Pêl-rwyd yr Urdd

Bydd tîm pêl-rwyd yr ysgol yn cystadlu yn nhwrnamaint yr Urdd ddydd Iau nesaf, y $1^{af}$ o Hydref yng Nghanolfan Hamdden Plascrug. Dymuniadau gorau iddyn nhw.

Mae twrnameintiau'r Urdd yn ymddangos yn aml y tymor hwn ar gyfer pêl-rwyd, pêl-droed, rygbi ac ati. Cadwch lygad manwl ar y Calendr Hanner Tymor os gwelwch yn dda i weld pryd mae'r ymarferion ar ôl ysgol.

### *Urdd Netball*

*The school netball team will be competing in the Urdd tournament next Thursday, 1 October, at Plascrug Leisure Centre.*
*We wish them the very best of luck!*

*There are a number of Urdd tournaments taking place this term, including netball, football, rugby and more. Please keep a close eye on the Half-Term Calendar for details of when the relevant after-school practices will be held.*

---

### Ymaelodi gyda'r Urdd


Ar ddechrau blwyddyn ysgol newydd rydym yn annog disgyblion i ymaelodi gyda'r Urdd. Medrwch wneud hynny drwy fynd i Ymuno | Urdd Gobaith Cymru
Trwy fod yn aelod byddwch yn medru mynychu Clwb yr Urdd (Bl.1-6) a chymryd rhan mewn cystadlaethau chwaraeon ac eisteddfodol yn ystod y flwyddyn.

### *Urdd Membership*

*At the start of a new school year we encourage pupils to join the Urdd. You can do so by going to* Join | Urdd Gobaith Cymru

*By being a member you will be able to attend Clwb yr Urdd (Yrs.1-6) and take part in sports and eisteddfod competitions during the year.*

---




### Calendr Hanner Tymor

Dyma'r ddolen i'r Calendr Hanner Tymor
Mae dolen i'r calendr yn cael ei chynnwys ym mhob llythyr, ac mae'n byw yn barhaol ar wefan yr ysgol.

### *Half term Calendar*

*Here is the link to the* *Half Term Calendar*
*A link to the calendar is included in each letter, and it lives permanently on the school's website.*

---

**Dyddiadau pwysig Tymor yr hydref:**

- Tynnu lluniau unigol a theuluoedd : Hydref $6^{ed}$
- Cyfarfod Blynyddol y G.Rh.A : Hydref $6^{ed}$
- Diwrnod Rhyngwladol : Hydref $9^{fed}$
- Nosweithiau Agored : Hydref $19^{eg}$ ac $20^{fed}$
- Diwrnod olaf yr hanner tymor hwn : Hydref $23^{ain}$
- Cyngerdd Nadolig : Rhagfyr $10^{fed}$

***Autumn term important dates:***

- *Individual and family photographs : October $6^{th}$*
- *PTA Annual General Meeting : October $6^{th}$*
- *International Day : October $9^{th}$*
- *Open Evenings : October $19^{th}$ and $20^{th}$*
- *Last day of this half term : October $23^{rd}$*
- *Christmas concert : December $10^{th}$*

**Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad addysgol eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.**
***If you have any concerns about your child's welfare or educational development, then please contact me immediately.***

**Yn gywir,**
**Gareth L James**
**Pennaeth / *Headteacher***
**25/09/2026**
www.ysgolgymraeg.cymru













@YrYsgolGymraeg

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY231HL
swyddfa@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk
Prifathro / *Headteacher:* Mr Gareth L James

01970 617613